CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2004 Rhif 783 (Cy.80)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Diwygio) (Cymru) 2004

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001 er mwyn -

(a) darparu bod arolygiadau addysg neu hyfforddiant penodol i'w cynnal o fewn chwe mlynedd o ba un bynnag yw'r cynharaf o'r canlynol -

- dyddiad yr arolygiad diwethaf (o dan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 neu'r drefn flaenorol o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992),
- dyddiad sefydlu sefydliad newydd, neu
- 1 Medi 2004,

ac yna o fewn pob cyfnod o chwe mlynedd i ddyddiad yr arolygiad diwethaf; a

(b) newid y cyfnod y mae'n rhaid gwneud adroddiad arolygu ynddo i 70 diwrnod gwaith ym mhob achos a'r cyfnod y mae'n rhaid cyhoeddi cynllun gweithredu ynddo i 50 diwrnod gwaith ym mhob achos.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 No. 783 (W.80)

EDUCATION, WALES

The Inspection of Education and Training (Amendment) (Wales) Regulations 2004

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Inspection of Education and Training (Wales) Regulations 2001 so as to -

(a) provide for inspections of specific education or training to be carried out within six years from whichever is the earlier of -

- the date of the last inspection (under the Learning and Skills Act 2000 or the previous regime under the Further and Higher Education Act 1992),
- the establishment of a new institution, or
- 1 September 2004,

and then within each six year period from the date of the last inspection; and

(b) change the period within which an inspection report must be made to 70 working days in every case, and the period within which an action plan must be published to 50 working days in every case.

OFFERYNNAU STATUDOL

2004 Rhif 783 (Cy.80)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Diwygio) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud	*16 Mawrth 2004*
Yn dod i rym	*1 Medi 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 77(2) a (4), 80(4), 83(9) a 84(5) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**a**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Diwygio) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 1 Medi 2004.

(2) Maent yn gymwys i Gymru yn unig.

Diwygio Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001

2.-(1) Diwygir Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001(**b**) fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 2 rhowch y canlynol -

"**2**. Mae arolygiadau i'w cynnal -

(a) o fewn chwe mlynedd o'r arolygiad diwethaf, neu

(b) os nad oes arolygiad wedi bod, o fewn chwe mlynedd o ba un bynnag yw'r cynharaf o'r canlynol -

(i) dyddiad unrhyw asesiad neu arolygiad a gyflawnwyd o dan adran 9(4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**c**);

(ii) dyddiad sefydlu sefydliad sy'n darparu'r addysg a hyfforddiant sydd i gael eu harolygu; neu

(a) 2000 p.21. I gael ystyr "prescribed" yn adran 77 *gweler* is-adran (9) o'r adran honno.

(b) O.S. 2001/2501 (Cy. 204).

(c) 1992 p.13.

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 No. 783 (W.80)

EDUCATION, WALES

The Inspection of Education and Training (Amendment) (Wales) Regulations 2004

Made	*16th March 2004*
Coming into force	*1st September 2004*

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on it by sections 77(2) and (4), 80(4), 83(9) and 84(5) of the Learning and Skills Act 2000(**a**).

Name, commencement and application

1. -(1) These Regulations are called the Inspection of Education and Training (Amendment) (Wales) Regulations 2004 and come into force on 1st September 2004.

(2) They apply only in relation to Wales.

Amendment of the Inspection of Education and Training (Wales) Regulations 2001

2. -(1) The Inspection of Education and Training (Wales) Regulations 2001(**b**) are amended as follows.

(2) For regulation 2 substitute the following -

"**2**. Inspections are to be conducted within -

(a) six years of the date of the last inspection, or

(b) where there has been no inspection, within six years of whichever is the earlier of-

(i) the date of any assessment or inspection carried out under section 9(4) of the Further and Higher Education Act 1992(**c**);

(ii) the date of establishment of an institution providing education and training to be inspected; or

(a) 2000 c.21. For the meaning of "prescribed" in section 77 *see* subsection (9) of that section.

(b) S.I. 2001/2501(W.204).

(c) 1992 c.13.

(iii) 1 Medi 2004,

ac yna o fewn pob cyfnod o chwe mlynedd o'r arolygiad diwethaf.".

(3) Yn rheoliad 3 -

(a) yn lle'r rhif "55" rhowch y rhif "70", a

(b) dilëwch y geiriau "neu, pan fydd angen darparu cyfieithiad i'r Gymraeg neu'r Saesneg, y cyfnod o 65 niwrnod gwaith o'r dyddiad hwnnw".

(4) Yn rheoliad 4(1) -

(a) yn lle'r rhif "40" rhowch y rhif "50", a

(b) dilëwch y geiriau "neu, pan fydd angen darparu cyfieithiad i'r Gymraeg neu'r Saesneg, y cyfnod o 50 niwrnod gwaith" a'r geiriau "(yn y naill achos neu'r llall)".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

16 Mawrth 2004

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(a) 1998 p.38.

(iii) 1st September 2004,

and then within each six year period of the date of the last inspection.".

(3) In regulation 3 -

(a) for the number "55" substitute the number "70", and

(b) delete the words " or, where it is necessary to provide a translation into Welsh or English, the period of 65 working days from that date".

(4) In regulation 4(1) -

(a) for the number "40" substitute the number "50", and

(b) delete the words "or, where it is necessary to provide a translation into Welsh or English, the period of 50 working days" and the words "(in either case)".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

16th March 2004

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

2004 Rhif 783 (Cy.80)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Diwygio) (Cymru) 2004

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 No. 783 (W.80)

EDUCATION, WALES

The Inspection of Education and Training (Amendment) (Wales) Regulations 2004

©℗ Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090902-X

9 780110 909028

£3.00

W36/3/04 ON